

# Amgueddfa Cymru - National Museum Wales

## Adolygiad Blynyddol 2017/18 Annual Review

## Digwyddiadau ac Arddangosfeydd

Cynhaliwyd 29 o arddangosfeydd a 13 arddangosiad yn ein hamgueddfeydd a chyda'n sefydliadau partner yn 2017/18, gan adrodd straeon ysbrydoledig a dathlu iaith a diwylliant byrlymus Cymru.

**Uchafbwyntiau…**

Agorwyd arddangosfa *Llun am Lun: Ffotograffau o Gasgliad David Hurn* oedd hefyd yn dathlu agoriad oriel ffotograffiaeth gyntaf Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn gweithiodd Amgueddfa Cymru mewn partneriaeth â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cadw, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Casgliad y Werin Cymru, Oriel Môn ac eraill, i ddod â straeon a gwrthrychau'r ardal ynghyd ar gyfer y Lle Hanes.

Denwyd **91,334** o ymwelwyr i **PENDERFYNIAD PWY?**

O ganlyniad i bartneriaeth bum mlynedd gydag elusen ddigartrefedd The Wallich, agorwyd *Penderfyniad Pwy?* yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Ochr yn ochr â chynorthwywyr a staff, gweithiodd pobl sydd wedi profi digartrefedd i ddatblygu arddangosfa gelf gyfoes.

Agorwyd *France and Britain: Art for a new age 1817-1917* yn Japan gan deithio i chwe lleoliad. Cyfrannodd y daith at gryfhau ein proffil rhyngwladol, a gwella enw da byd-eang casgliadau celf Cymru.

Denwyd dros **50,000 o ymwelwyr** i arddangosfa Deinosoriaid yn Deor Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, a gefnogwyd gan Croeso Cymru yn rhan o Flwyddyn y Chwedlau

## Partneriaethau a Chyfranogiad

Drwy gynnwys pobl a chymunedau yn ein gwaith, rydym ni'n grymuso rhagor o bobl i arddel eu hawliau diwylliannol, gan gyfrannu at Gymru gydlynol a mwy cyfartal.

Rydym yn bartner diwylliannol allweddol ac yn ddarparwr rhaglen Cyfuno: creu cyfleoedd trwy ddiwylliant. Yn 2017/18, gweithiwyd gydag amrywiaeth enfawr o bartneriaid gan gynnwys 8 awdurdod lleol.

Roeddem hefyd yn un o 12 sefydliad ledled y DU i dderbyn arian gan y Loteri Genedlaethol trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri i ddatblygu Tynnu'r Llwch, rhaglen bum mlynedd i gynyddu ymgysylltiad ieuenctid â threftadaeth yng Nghymru.

Rydym wedi buddsoddi mewn sicrhau fod ein hamgueddfeydd yn fwy croesawgar fyth i ymwelwyr. Ymhlith yr enghreifftiau oedd agor Ystafell Ymlacio yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a gafodd ganmoliaeth arbennig yng ngwobrau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Ysbrydolwyd y cysyniad gan wirfoddolwr yn ei arddegau sydd ag awtistiaeth, ac mae'n creu cyfle i bobl gymryd hoe, ymlacio a theimlo'n llonydd.




Mae gweithio ar y cyd yn ein galluogi i ganolbwyntio ar anghenion hirdymor, gan sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol er budd pobl Cymru.

## Dysgu am Oes

Ni yw darparwr addysg tu allan i'r ystafell ddosbarth mwyaf Cymru. Yn 2017/18, croesawyd 187,249 o ddisgyblion a myfyrwyr a thros 420,995 o ddysgwyr anffurfiol.

**Uchafbwyntiau…**

Agoriad ardaloedd gweithgareddau newydd Canolfan Ddysgu Weston yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru. O fewn tri mis, roedd 12,000 o blant ysgol wedi mwynhau'r ardaloedd newydd.

Lansiad Ar Lafar yn Amgueddfa Lechi Cymru, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, sef gŵyl i bobl sy'n dysgu Cymraeg a ddatblygwyd ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Cymerodd 635 o ddysgwyr ran yn yr Ŵyl, sydd bellach wedi ennill ei phlwyf yn y rhaglen flynyddol.

Ymhlith y profiadau digidol dwyieithog newydd mae iBook ddwyieithog yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru a Rhithdaith Danddaearol Google yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru. Cafodd ei chreu yn rhan o raglen rithdeithiau Google sydd â'r nod o gyrraedd 1 miliwn o blant ysgol ledled y DU. Defnyddiwyd y Rithdaith i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol i baratoi ar gyfer eu hymweliad dan ddaear, a dyma'r daith gyntaf o'i bath i gael ei chreu yn Gymraeg.

Mae ein rhaglen addysg ddigidol fywiog yn cyrraedd dros **192,000 o ddefnyddwyr**

Datblygwyd ein rhaglen Blynyddoedd Cynnar ar gyfer plant dan bump oed er mwyn cefnogi teuluoedd sydd dan anfantais, yn enwedig teuluoedd sy'n byw yn yr Ardaloedd Arloesi.

## Cefnogi Sgiliau a Gwirfoddoli

Yn 2017/8 penodwyd pedwar prentis mwyngloddio newydd yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, gan gynnwys tywysydd benywaidd cyntaf y safle; cefnogwyd prentisiaethau crefft yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru a phenodwyd gof yn Amgueddfa Lechi Cymru.

Gweithiodd ein Cydlynwyr Gwirfoddoli gyda chydweithwyr a sefydliadau partner i wella cyfleoedd gwirfoddoli ledled Amgueddfa Cymru. O ganlyniad, rhoddodd dros 700 o wirfoddolwyr 29,000 o oriau o'u hamser dros gyfnod o 12 mis.

Mae **42%** o'n gwirfoddolwyr dan 25 oed a **4%** o'n gwirfoddolwyr newydd yn nodi eu bod o gefndir du, Asiaidd neu o leiafrifoedd ethnig

Mae 8% o'n gwirfoddolwyr yn nodi fod ganddynt anabledd neu anghenion dysgu ychwanegol. Gweithiwyd gyda sefydliadau megis Cymdeithas Syndrom Down a Chymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru i sicrhau fod ein rhaglen wirfoddolwyr yn fwy hygyrch. Llwyddodd ein cais i adnewyddu ein dyfarniad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr hefyd, a chafwyd dathliad yn Amgueddfa Wlân Cymru.

Gan weithio ochr yn ochr â Men in Sheds, cefnogwyd dynion hŷn unig drwy ddatblygu cwrs cerfio coed achrededig yn Gweithdy, Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.

Cafodd ystod o gyrsiau achrededig eu hwyluso, gan gynnwys Cwrs Crefftau Tecstilau yn Nhreláí gyda Gweithredu Caerau a Threlái a Hyb Cymunedol Trelái/Caerau. Roedd mwyafrif y dysgwyr yn ddi-waith ac erbyn diwedd y cwrs roedd ganddynt gymhwyster Lefel Mynediad 3. Mae'r tecstilau a grëwyd bellach yn cael eu defnyddio fel eitemau trin a thrafod ar gyfer ymwelwyr â nam ar eu golwg.

## Cynhyrchu Incwm a Chodi Arian

Mae pob £1 a fuddsoddwyd yn Amgueddfa Cymru gan Lywodraeth Cymru yn cynhyrchu £4 o wariant ychwanegol yng Nghymru, gan gyfrannu £83 miliwn o werth ychwanegol gros at economi Cymru – y gwerth ychwanegol gros uchaf o blith yr holl sefydliadau diwylliannol a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru.

**Uchafbwyntiau…**

Amrywio ein cyllid ymchwil, codi tâl, elw cwmni masnachol a refeniw codi arian gan arwain at 46% o gynnydd cyffredinol yn ein hincwm net.

**£1.9 miliwn** o roddion

Codi £960,000 ar gyfer apêl codi arian cyfalaf Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, gan gynnwys buddsoddiad gan Sefydliad Garfield Weston, Sefydliad Foyle a Sefydliad Moondance.

Nawdd gan Sefydliad Paul Hamlyn ar gyfer Rhagori, project i hwyluso cyfranogiad gan bobl sydd dan anfantais ar draws ein holl amgueddfeydd cenedlaethol. Cynnydd ym muddsoddiad chwaraewyr y People's Postcode Lottery.

Agor siop roddion a bwyty newydd yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, yn rhan o'r project ailddatblygu.

Ymweliad gan dros **1,200 o deithwyr** llong fordeithio fawr MV *Corinthian* ag Amgueddfa Lechi Cymru

Cafodd y teithwyr fwynhau pecyn croeso personol gan gynnwys pryd bwyd chwarelwr, cyflwyniad am hanes y gymuned a chyfle i gwrdd ag un o chwarelwyr yr Amgueddfa.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

national museum wales
amgueddfa cymru
ysbrydoli pobl newid bywydau
inspiring people changing lives



## Events & Exhibitions

We hosted 29 exhibitions and 13 displays across our museums and partner organizations in 2017/18, by telling inspiring stories and celebrating Wales's vibrant culture and Welsh language.

### Highlights…

We launched *Swaps: Photographs from the David Hurn Collection* which also marked the opening of our first gallery dedicated to photography at National Museum Cardiff.

Lle Hanes at the National Eisteddfod on Anglesey saw us working in partnership with The National Library of Wales, the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales, Cadw, People's Collection Wales, Oriel Ynys Môn and others to bring together objects and stories about the area.

**91,334** visitors attended **WHO DECIDES?**

As a result of a five-year partnership with homelessness charity The Wallich, we opened *Who Decides?* at National Museum Cardiff. People who had experienced homelessness worked alongside curators and learning staff to develop an exhibition of contemporary art.

*France and Britain: Art for a new age 1817-1917* opened in one of six venues in Japan. The tour helped strengthen our international profile, and enhanced the global reputation of Wales's art collections.

Dinosaur Babies at National Museum Cardiff attracted over **50,000 visitors**, supported by Visit Wales as part of Wales's Year of Legends

## Partnerships & Participation

By involving people and communities in shaping our work, we are empowering more people to access their cultural rights and contributing to a cohesive and more equal Wales.

We are a leading cultural partner and provider in the programme Fusion: creating opportunities through culture, which in 2017/18 saw us work with a huge range of partners including 8 local authorities.

We were also one of 12 organizations across the UK to be successful in obtaining funding from the National Lottery through the Heritage Lottery Fund to develop Kick the Dust, a five-year programme to increase youth engagement with heritage in Wales.

We invested in making our museums even more welcoming to visitors. One example was the opening of a Chill Out room at the National Waterfront Museum, which was later highly commended at the Wales Council for Voluntary Action awards. The concept was inspired by a teenage volunteer with autism and allows people to take time out, relax and feel calm.




Working in partnership enables us to focus on long-term needs, ensuring we use our resources effectively to benefit people in Wales.

## Learning for Life

We remain the leading provider of learning outside the classroom in Wales, welcoming 187,249 pupils and students and over 420,995 informal learners in 2017/18.

### Highlights...

We opened new activity spaces in the Weston Centre for Learning at St Fagans National Museum of History, which saw 12,000 schoolchildren enjoy the spaces within the first three months of opening.

We launched Ar Lafar, a festival for Welsh language learners developed with the National Centre for Learning Welsh at the National Slate Museum, the National Waterfront Museum and St Fagans National Museum of History. Over 635 Welsh language learners participated in the Festival, which has now been established as an annual event.

New bilingual digital experiences include the development of a Roman iBook at the National Roman Legion Museum and a Google Virtual Reality Expedition at Big Pit National Coal Museum, created as part of Google's Expeditions Programme to reach 1 million school-children across the UK. The expedition helped to prepare learners with additional learning needs for their visit underground and was the first expedition to be created in the Welsh language.

We reached over **192,000 users** via our vibrant digital learning programme

We developed our Early Years programme for children under five, to support families who face disadvantage and in particular families living in Pioneer Areas.

## Supporting Skills & Volunteering

In 2017/18 we appointed four new mining apprentices at Big Pit National Coal Museum, including our first female guide, supported craft apprenticeships at St Fagans National Museum of History and appointed a blacksmith at the National Slate Museum.

Our Volunteer Coordinators worked with colleagues and partner organizations to enhance opportunities for volunteering across Amgueddfa Cymru. As a result, over 700 volunteers donated 29,000 hours during this 12-month period.

**42%** of our volunteers are under the age of 25 & **4%** of our new volunteers consider themselves BAME

8% of our volunteers consider themselves to have a disability or additional learning needs. We worked with organizations such as the Down's Syndrome Association and the National Autistic Society to make our volunteer programme more accessible. We were also successful in renewing our Investing in Volunteers Award, which we celebrated at the National Wool Museum.

Working alongside Men in Sheds, we supported lonely older men by developing an accredited woodcarving course at Gweithdy in St Fagans National Museum of History.

We facilitated a range of accredited courses, including a Textile Crafts Course in Ely with Action Caerau Ely and Ely/Caerau Community Hub. The majority of learners were unemployed and by the end of the course gained an Entry Level 3 qualification. The textiles created are now used as handling items for visually impaired visitors.

## Income Generation & Fundraising

Every £1 invested in Amgueddfa Cymru by the Welsh Government generates £4 of additional expenditure in Wales, contributing £83 million of gross value added (GVA) to the Welsh economy – the highest GVA of any publicly funded cultural institution in Wales.

### Highlights...

Diversifying our funding from research, charging, trading company profits and revenue fundraising, which resulted in an overall increase in net income of 46%.

**£1.9 million** in donations

£960,000 raised for the St Fagans National Museum of History capital fundraising appeal, including gifts from the Garfield Weston Foundation, the Foyle Foundation and the Moondance Foundation.

Funding from the More and Better project by the Paul Hamlyn Foundation to facilitate participation with people who are experiencing disadvantage across all of the national museums. Increased investment from players of the People's Postcode Lottery.

The opening of a new gift shop and restaurant at St Fagans National Museum of History as part of the redevelopment project.

A visit from over **1,200 passengers** from the cruise liner MV *Corinthian* at the National Slate Museum

Passengers enjoyed a customised welcome package which included a typical quarryman meal, a presentation on community history and a chance to meet one of the Museum's very own quarrymen.

national museum cardiff
amgueddfa genedlaethol caerdydd

st fagans national museum of history
sain ffagan amgueddfa werin cymru

big pit national coal museum
amgueddfa lofaol cymru

national slate museum
amgueddfa lechi cymru

national roman legion museum
amgueddfa lleng rufeinig cymru

national wool museum
amgueddfa wlân cymru

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
STORI DIWYDIANT A BLAENGAREDD CYMRU

National Waterfront Museum
WALES' STORY OF INDUSTRY & INNOVATION

www.amgueddfa.cymru
www.museum.wales
@AmgueddfaCymru



# Croeso

Eleni, croesawyd **1,776,572 o ymwelwyr** i'n saith amgueddfa – y nifer fwyaf ers sefydlu'r Amgueddfa ym 1907 a chynnydd o 101.7% ers 2001, adeg cyflwyno polisi mynediad am ddim Llywodraeth Cymru. Eleni, rydym hefyd wedi cynhyrchu **£7.2 miliwn** o incwm gros trwy weithgarwch masnachol a chodi arian yn bennaf, sy'n gynnydd sylweddol ar y flwyddyn flaenorol.

Mae ein Gweledigaeth newydd, **Ysbrydoli pobl, newid bywydau,** yn mynegi ein hymrwymiad at gyfiawnder cymdeithasol trwy gyfranogiad diwylliannol. Trwy ein harddangosfeydd a'n rhaglenni addysg, yn ogystal â'n partneriaethau ymchwil a chymunedol, mae ein gwaith yn cyd-fynd â Nodau Cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae ein hamgueddfeydd yn gwneud cyfraniad hollbwysig at dwristiaeth a chyflogaeth yn eu rhanbarthau. At ei gilydd, maent yn cyfrannu o leiaf £83 miliwn o werth ychwanegol gros yn flynyddol at ddatblygiad economaidd Cymru.

Dathlwyd 25 mlynedd ers sefydlu ein partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Derek Williams gyda *Penderfyniad Pwy?,* arddangosfa fawr o gelf gyfoes a gafodd ei churadu gan 12 o fenywod a dynion sydd wedi profi digartrefedd.

Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi ein helpu a'n cefnogi yn ein gwaith eleni – ein staff, ein gwirfoddolwyr, ein Cyfeillion a'n Noddwyr, yn ogystal â Llywodraeth Cymru, ein sefydliadau partner a'n hymwelwyr.

Mae gan Amgueddfa Cymru flwyddyn gyffrous o'i blaen. Byddwn yn cwblhau project ailddatblygu mawr Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, diolch i gymorth sylweddol gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a Llywodraeth Cymru.

**David Anderson**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol, Amgueddfa Cymru**

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

national museum wales
amgueddfa cymru

ysbrydoli pobl
newid bywydau

inspiring people
changing lives



# Croeso

This year we welcomed **1,776,572 visitors** to our seven museums - the highest ever number since the Museum was founded in 1907 and an increase in attendance of 101.7% since 2001, when the Welsh Government introduced free entry. We also generated **£7.2 million** of non-government grant income mainly through commercial activities and fundraising, a significant increase on the previous year.

Our new vision, **Inspiring people, changing lives,** expresses our commitment to achieving social justice through cultural participation. Through our exhibitions and learning programmes, as well as our research and community partnerships, we align our work to the National Goals of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. Our museums make a vital contribution to tourism and employment in their regions, contributing together at least £83 million in gross value added each year to the economic development of Wales.

We marked the 25th anniversary of our partnership with the Derek Williams Trust with *Who Decides?,* a major exhibition of modern and contemporary art conceived and curated by 12 women and men who have experienced homelessness.

We are grateful to everyone who has helped and supported us in our work this year - our staff, volunteers, Friends and Patrons, as well as the Welsh Government, and our sponsors, partner organisations and visitors.

Amgueddfa Cymru has an exciting year ahead. We will complete the £30 million redevelopment of St Fagans National Museum of History, a project that has only been possible with significant support from the Heritage Lottery Fund and the Welsh Government.

**David Anderson**

**Director General, Amgueddfa Cymru - National Museum Wales**



# Croeso

Eleni, croesawyd **1,776,572 o ymwelwyr** i'n saith amgueddfa – y nifer fwyaf ers sefydlu'r Amgueddfa ym 1907 a chynnydd o 101.7% ers 2001, adeg cyflwyno polisi mynediad am ddim Llywodraeth Cymru. Eleni, rydym hefyd wedi cynhyrchu **£7.2 miliwn** o incwm gros trwy weithgarwch masnachol a chodi arian yn bennaf, sy'n gynnydd sylweddol ar y flwyddyn flaenorol.

Mae ein Gweledigaeth newydd, **Ysbrydoli pobl, newid bywydau,** yn mynegi ein hymrwymiad at gyfiawnder cymdeithasol trwy gyfranogiad diwylliannol. Trwy ein harddangosfeydd a'n rhaglenni addysg, yn ogystal â'n partneriaethau ymchwil a chymunedol, mae ein gwaith yn cyd-fynd â Nodau Cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae ein hamgueddfeydd yn gwneud cyfraniad hollbwysig at dwristiaeth a chyflogaeth yn eu rhanbarthau. At ei gilydd, maent yn cyfrannu o leiaf £83 miliwn o werth ychwanegol gros yn flynyddol at ddatblygiad economaidd Cymru.

Dathlwyd 25 mlynedd ers sefydlu ein partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Derek Williams gyda *Penderfyniad Pwy?,* arddangosfa fawr o gelf gyfoes a gafodd ei churadu gan 12 o fenywod a dynion sydd wedi profi digartrefedd.

Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi ein helpu a'n cefnogi yn ein gwaith eleni – ein staff, ein gwirfoddolwyr, ein Cyfeillion a'n Noddwyr, yn ogystal â Llywodraeth Cymru, ein sefydliadau partner a'n hymwelwyr.

Mae gan Amgueddfa Cymru flwyddyn gyffrous o'i blaen. Byddwn yn cwblhau project ailddatblygu mawr Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, diolch i gymorth sylweddol gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a Llywodraeth Cymru.

**David Anderson**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol, Amgueddfa Cymru**



# Croeso

This year we welcomed **1,776,572 visitors** to our seven museums - the highest ever number since the Museum was founded in 1907 and an increase in attendance of 101.7% since 2001, when the Welsh Government introduced free entry. We also generated **£7.2 million** of non-government grant income mainly through commercial activities and fundraising, a significant increase on the previous year.

Our new vision, **Inspiring people, changing lives,** expresses our commitment to achieving social justice through cultural participation. Through our exhibitions and learning programmes, as well as our research and community partnerships, we align our work to the National Goals of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. Our museums make a vital contribution to tourism and employment in their regions, contributing together at least £83 million in gross value added each year to the economic development of Wales.

We marked the 25th anniversary of our partnership with the Derek Williams Trust with *Who Decides?,* a major exhibition of modern and contemporary art conceived and curated by 12 women and men who have experienced homelessness.

We are grateful to everyone who has helped and supported us in our work this year - our staff, volunteers, Friends and Patrons, as well as the Welsh Government, and our sponsors, partner organisations and visitors.

Amgueddfa Cymru has an exciting year ahead. We will complete the £30 million redevelopment of St Fagans National Museum of History, a project that has only been possible with significant support from the Heritage Lottery Fund and the Welsh Government.

**David Anderson**

**Director General, Amgueddfa Cymru - National Museum Wales**